# Neges gan Ei Mawrhydi Y Frenhines, Pennaeth y Gymanwlad

## Neges Diwrnod y Gymanwlad 2013
## 'Cyfle drwy Fenter'

Thema'r Gymanwlad eleni yw 'Cyfle drwy Fenter'. Mae'n gyfle i ddathlu ein llwyddiannau, yn arbennig y rhai a oedd yn ymddangos yn heriol, yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl, ac sydd wedi helpu i feithrin balchder, gwydnwch a chryfder ein pobl ifanc, ein cymunedau a'n cenhedloedd.

Mae nifer o nodweddion yn gyffredin yn yr hyn y mae'r ddynol ryw wedi llwyddo i'w gyflawni. O ddringo'r mynydd uchaf, i ddod i'r brig ym maes chwaraeon, gwneud darganfyddiad gwyddonol, adeiladu busnes llwyddiannus neu ddarganfod talent artistig unigryw—dechreuodd pob un ohonynt fel nod neu syniad syml ym meddwl un person.

Caiff pob un ohonom ein geni gyda'r awydd i ddysgu, i archwilio, i roi cynnig ar bethau newydd. A gall pob un ohonom feddwl am achlysuron pan gawsom ein hysbrydoli i wneud rhywbeth yn fwy effeithlon, neu gynorthwyo eraill i gyrraedd eu llawn botensial. Er hynny, mae angen dewrder i fentro. Mae uchelgais a chwilfrydedd yn agor llwybrau newydd.

Dyna sydd wrth wraidd y ffordd rydym am i'r Gymanwlad weithredu: unigolion a chymunedau yn canfod ffyrdd o gydymdrechu i lunio gwell dyfodol sydd o fudd i bawb.

Mae'r gwerthoedd a rannwn, sef heddwch, democratiaeth, datblygiad, cyfiawnder a hawliau dynol, yn golygu ein bod yn rhoi pwyslais arbennig ar gynnwys pawb yn y nod hwn, yn arbennig y rhai hawdd i'w niweidio. Mae'r gwerthoedd hyn i'w cael yn ein Siarter newydd i'r Gymanwlad.

Caf fy atgoffa o'r dywediad, 'oni heuir, ni fedir'. Wrth i ni fyfyrio ar sut y mae thema'r Gymanwlad yn berthnasol i ni ein hunain, gadewch i ni ystyried yr hyn y gall calon fentrus, dyfalbarhad a gwaith tîm ei ysgogi. A gadewch i ni gofio'r cyfle mawr y mae'r Gymanwlad yn ei gynnig i ni - o ymuno ag eraill, yn gryfach gyda'n gilydd, er lles pawb.